# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

## 14EG TACHWEDD 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd L.D. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Morgan, Rheolwr y Gwasanaethau Tai - Buddsoddiad a Chefnogaeth
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell 72A, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 2:00pm - 2:10pm

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 2. TALIADAU DWR YN NHY'R GELLI, LLANELLI

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad a fanylai ar sut yr oedd cyn-denantiaid a thenantiaid presennol Cynllun Tai Gwarchod Tŷ'r Gelli yn Llanelli wedi gordalu am ddŵr.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod adolygiad o gostau Dŵr Cymru yng nghynlluniau tai gwarchod y Cyngor wedi datgelu bod Dŵr Cymru wedi codi'r tâl anghywir ar y Cyngor ar gyfer y cyflenwad dŵr yn Nhŷ'r Gelli rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2017. Defnyddiwyd y taliadau hynny i gyfrifo'r costau dŵr wythnosol ar gyfer tenantiaid y cynllun tai gwarchod.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai fod y taliadau diwygiedig ar gyfer y cyfnod a nodwyd wedi dod i law a oedd yn golygu bod gan nifer helaeth o denantiaid hawl i gael ad-daliad. Cyfanswm yr ad-daliad a gyfrifwyd oedd £33,086.42, a fyddai'n rhoi ad-daliad o £973.13 fesul tenant ar gyfartaledd.

Yn ychwanegol i hyn, pwysleisiodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai y byddai tenantiaid presennol a chyn-denantiaid yn cael eu had-dalu ar unwaith drwy ddull talu o'u dewis. Ar ben hynny, os yw cyn-denant wedi marw, byddai'r arian yn cael ei ad-dalu i'r ystâd.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai ei fod yn hyderus nad oedd y mater hwn wedi codi mewn unrhyw leoliad arall a rhoddodd sicrwydd y byddai camau yn cael eu cymryd er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

**PENDERFYNWYD ad-dalu'r costau dŵr a oedd wedi'u gordalu i denantiaid presennol a chyn-denantiaid Tŷ'r Gelli.**

**3. LLOFNODI BOD COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 MEDI 2017 YN GOFNOD CYWIR**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2017, gan ei fod yn gywir.**

| ________________________________ | ____________________ |
|---|---|
| **AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** | **DYDDIAD** |